Adroddiad ar

Meithrinfa Cae'r Ffair Ltd

2 Church Street
Gorslas
Llanelli
SA14 7NF

Dyddiad yr arolygiad:Hydref 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Meithrinfa Cae'r Ffair Ltd

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Meithrinfa Cae'r Ffair Ltd |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Sharon James |
| Person â gofal | Charlette Richards, Stephanie Davies, Ceri Davies |
| Nifer y lleoedd | 45 |
| Ystod oedran y plant | 0 – 11 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 39 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 30 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun – Dydd Gwener 8.00y.b. – 6.00y.h. |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 13 Tachwedd 2019 (Arolwg ar y Cyd) |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 13 Tachwedd 2019 (Arolwg ar y Cyd) |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 14/10/2025 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
| --- | --- |
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1. Parhau i ledaenu’r arferion rhagorol ar draws pob agwedd o waith y lleoliad.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar eu gwaith mewn perthynas ag ‘effaith yr arweinyddiaeth arloesol i gynnwys ymarferwyr ymroddgar, rhieni cefnogol a chymuned agos ym mhrofiadau dysgu’r plant.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Rhagorol

Mae bron bob plentyn yn hapus, ac yn mwynhau cwmni eu ffrindiau a'r ymarferwyr wrth iddynt gymdeithasu'n gynnes gyda'i gilydd. Maent yn gwneud dewisiadau'n hyderus ac yn mwynhau'r rhyddid i ddarganfod eu hamgylchedd. Er enghraifft, mae plant hŷn yn gallu dewis os ydynt eisiau chwarae dan do neu yn yr ardal agored. Mae bron bob plentyn yn ymuno â grwpiau o ffrindiau yn frwdfrydig yn ôl eu dewisiadau. Maent yn helpu eu hunain i adnoddau yn fedrus gan bod ganddynt amser a mynediad rhwydd i'r ardaloedd chwarae. Er enghraifft, maent yn mwynhau yr ardaloedd 'Dewch i...' gan arbrofi gyda phridd, plu a brigau i greu mochyn daear, tylluan ac ogof. Maent yn gyffrous wrth gydweithio, megis adeiladu gydag amryw o frics, ac yn gyfforddus iawn i ofyn cwestiynau. Er enghraifft, beth yw stori heddiw, a ble allent gael rhagor o goncyrs i arbrofi'n bellach.

Mae bron bob plentyn yn setlo'n gyflym, ac wrth gyrraedd yn mynd ati yn frwd i ddechrau ar eu gwaith chwarae. Maent yn gyfarwydd iawn gyda trefniadau'r dydd ac yn gadael eu chwarae yn ddiffwdan er mwyn cofrestru ac yn canu'n braf, gan wybod y gallent ddychwelyd cyn hir i chwarae. Mae plant, gan gynnwys y babis ieuengaf, yn ymdopi'n dda ac yn teimlo'n ddiogel a chartrefol. Er enghraifft, maent yn mwynhau agosrwydd ymarferwyr a ffrindiau wrth farcio gyda sialciau neu wrth wrando ar stori. Maent yn hyderus i alw enwau'r ymarferwyr pan mae angen, gan ddangos bod ganddynt ymdeimlad o berthyn. Er enghraifft, wrth chwarae rôl, maent yn defnyddio'r ffôn i siarad a'u rhieni. Mae bron bob un plentyn yn cael boddhad llwyr wrth ddatblygu eu dealltwriaeth am eu hunaniaeth. Er enghraifft, maent wrth eu bodd yn astudio llyfrau teulu sydd yn cynnwys lluniau eu teuluoedd yn ogystal a theuluoedd yr ymarferwyr.

Mae bron bob plentyn yn rhyngweithio yn eithriadol o dda ac yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn wych. Maent yn dysgu i ddatblygu perthnasau hapus ac yn mwynhau cwmni ffrindiau. Maent yn cael cyfleoedd i ddeall rhannu a chymryd tro. Er enghraifft, yn ystod gweithgaredd 'beth sydd yn y bocs,' mae plant wrth eu bodd yn rhannu'r profiad ac yn aros yn aeddfed gan ddeall bod pawb yn cael tro. Dros frecwast a chinio, maent yn arsylwi ei gilydd ac yn sgwrsio'n braf am eu hoff fwydydd. Maent yn cydweithio'n hapus ac yn gwenu wrth gwblhau tasgau fel bwydo'r dolis. Maent yn rhyngweithio'n dda ag ymwelwyr, gan eu gwahodd i'w chwarae ac yn gyffrous i rhannu eu darganfyddiadau er enghraifft wrth weld aderyn yn y goeden a thynnu sylw eraill ato.

Mae bron bob plentyn yn frwdfrydig ac yn dyfalbarhau gydag awch a mwynhad wrth ddysgu. Er enghraifft, maent yn diddori'n fawr wrth greu draenogod gyda brigau a thoes, ac yn paratoi hufen iâ drwy ddefnyddio adnoddau megis, conau, botymau a sgwpiau. Maent yn gyffrous ac yn hyderus i arbrofi yn eu hamgylchedd ac yn mwynhau meistroli

cyfarpar fel y cwrs rhwystrau, llwybr dringo a llithren, ac wrth lwyddo, yn awyddus i geisio eto. Maent yn mwynhau cyfleoedd arloesol i arbrofi, megis cuddio anifeiliaid yr hydref o dan rhannau rhydd, gydag eraill yn creu cadno allan o ddail ar fwrdd golau. Mae eu cyfleoedd i ddysgu yn ddiddiwedd gyda bron bob plentyn yn cael profiadau helaeth a chyffrous i fwynhau eu chwarae.

Mae bron bob plentyn yn datblygu medrau annibynnol ardderchog. Er enghraifft, mae'r plant hŷn yn hyderus i fynd i'r tŷ bach, golchi a sychu eu dwylo heb gymorth, tacluso a brwsio eu dannedd. Maent yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau unigol wrth gymryd rôl 'Helpwr y Dydd,' ynghyd â datrys, creu, a llwyddo yn eu gweithgareddau. Maent yn tywallt diodydd o ddŵr yn annibynnol ac yn falch iawn i ddefnyddio platiau go iawn.

### Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol

Mae bron bob plentyn yn gwneud cynnydd da iawn o'u mannau cychwyn ac yn datblygu eu medrau'n llwyddiannus ar draws pob maes dysgu. Maent yn gwrando a chyfathrebu'n dda wrth chwarae a rhyngweithio ag ymarferwyr a'u ffrindiau, ac yn dweud 'diolch' yn naturiol wrth chwarae. Maent yn dangos dyfalbarhad a gwydnwch ac yn ymgolli'n eu chwarae, er enghraifft wrth wneud cawl i fwydo'r babis yn y gegin, gan arllwys, cymysgu a throsi cynhwysion o un cynhwysydd i'r llall.

Mae sgiliau cyn-darllen y rhan fwyaf yn datblygu'n effeithiol iawn. Er enghraifft, mae plant yn dilyn print â bys wrth ddarllen stori. Mae medrau llafar bron bob un yn datblygu'n gadarn ac maent yn meddu ar sgiliau iaith ddatblygedig a geirfa eang. Maent yn ymateb yn hyderus yn y Gymraeg ac yn frwd i ymuno wrth chwarae gemau iaith a chanu.

Mae'r mwyafrif o blant yn mwynhau creu marciau gan ddefnyddio amrywiaeth o offer marcio mawr a bach yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn marcio ar fwrdd magnetig, ac yn efelychu symbolau Cymreig ar bapur mawr er mwyn dathlu Diwrnod Shwmae.

Mae medrau rhifedd y plant yn datblygu'n dda iawn, gyda'r rhan fwyaf yn medru cyfri i ddeg yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf yn cyfateb rhif a nifer o wrthrychau yn gywir, gan gynnwys yn yr awyr agored. Er enghraifft, wrth osod y nifer gywir o fes ar y wiwerod yn yr ardal fathemateg. Maent yn arbrofi â siâp yn fedrus wrth ymdrin ag adnoddau naturiol, megis wrth roi cymeriadau o lyfra maent yn ei fwynhau at ei gilydd ar foncyffion pren.

Mae medrau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu bron bob un yn datblygu'n effeithiol iawn. Maent yn dangos hyder wrth ddefnyddio ystod o offer yn annibynnol i gyfoethogi'u chwarae a'u dysgu. Er enghraifft, mae plant wrth eu boddau yn archwilio'r amgylchedd gyda fflach lampau gan arsylwi ar y cysgodion maent yn eu creu.

Mae bron bob plentyn yn archwilio'r ardal awyr agored yn hyderus ac yn datblygu eu medrau corfforol yn dda iawn. Er enghraifft, maent yn llwytho'r pwmpenni i'r whilber, eu symud,  a chyd weithio wrth eu dadlwytho eto. Maent yn dyfalbarhau yn weithgar yn gorfforol, yn unol â'u cam ddatblygiad.

Mae bron pob plentyn yn mwynhau cyfleoedd buddiol i ddysgu am ddiwylliannau a chredoau eraill, drwy drafodaethau, straeon a gweithgareddau. Er enghraifft, maent yn darllen amrywiaeth eang o storïau sydd yn cynnwys cymeriadau o ddiwylliannau gwahanol, ac yn chwarae gydag amrediad o deganau sydd yn dathlu gwahaniaeth, gan gynnwys amrywiaeth o ddolis a chymeriadau byd bach.

Mae medrau creadigol y mwyafrif helaeth o'r plant yn datblygu'n effeithiol. Maent yn gwneud penderfyniadau a dewisiadau doeth am beth i ddefnyddio wrth weithio'n greadigol. Yn y toes, maent yn rholio, tynnu, gwasgu ac ychwanegu defnyddiau naturiol, megis brigau, i wneud draenog. Mae'r rhan fwyaf yn medru eu hunain yn dda iawn wrth chwarae rôl o fewn cyd-destun byd go iawn.  Maent yn cyd-chwarae'n ddychmygus, gan ymgolli'n llwyr am gyfnod o amser, wrth rolio pwmpenni i'r ffau a'u defnyddio fel dodrefn wrth chwarae tŷ.

## Gofal a datblygiad:  Rhagorol

Mae'r holl ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn blaenoriaethu eu hiechyd a'u diogelwch yn llwyddiannus. Maent yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau cadarn yn effeithiol. Mae gan yr holl ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o'r polisi diogelu a'r gweithdrefnau cywir i ddilyn ac wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant priodol. Maent wedi mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf priodol ac yn cadw cofnodion cywir ar gyfer damweiniau,  digwyddiadau ac yn dilyn gweithdrefnau cadarn wrth weinyddu meddyginiaeth. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod gweithdrefnau cadarn ac effeithiol yn cael eu dilyn yn ystod cyfnodau bwyta ac yn annog y plant i olchi eu dwylo yn rheolaidd, boed tu fewn neu wrth y sinc allanol. Maent yn angerddol bod y plant yn cael bwydydd cartref maethlon trwy ddilyn cynlluniau bwyta'n iach ac yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant ag alergeddau. Mae ymarferwyr yn sicrhau urddas a phreifatrwydd llwyr wrth ddilyn polisi newid cewynnau ac yn cofnodi'r arferion yma yn ddyddiol. Mae gan ymarferwyr system gofrestru drwyadl a threfnus ac mae ganddynt gofnodion caniatâd yn eu lle. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r holl ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn eu trin â gofal a pharch. Mae ganddynt berthynas hynod garedig a chynnes gyda'r plant a maent yn modelu rhyngweithiadau naturiol a thyner yn gyson. Mae ymarferwyr yn darparu gofal o'r safon uchaf ac yn adnabod pryd mae angen cefnogaeth ar y plant, megis sychu trwyn, cymorth i wisgo neu cynnig anogaeth pan mae angen. Maent yn angerddol am eu gwaith ac yn

cydweithio’n llwyddiannus i atgyfnerthu gwerthoedd caredig, megis rannu, cymryd tro a dangos gofal tuag at bawb a phopeth. Mae ymarferwyr yn canmol plant yn ddiffuant a’u hannog i feddwl a cheisio datrys problemau drostynt eu hunain, megis defnyddio prennau hirach wrth greu trac, neu ychwanegu dŵr i greu cymysgedd mwdlyd. Mae’r holl ymarferwyr yn fodelau rôl rhagorol ac yn hybu’r iaith Gymraeg yn barhaol drwy sgwrsio, canu’n gyson a chyflwyno patrymau iaith yn effeithiol. Mae hyn yn gryfder allweddol.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth ardderchog o ddatblygiad, anghenion a dymuniadau unigol y plant. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae ganddynt rwydweithiau effeithiol a gweithdrefnau pwrpasol. Mae ymarferwyr yn barod iawn i gefnogi plant, ac yn cynnig cyfleoedd hynod greadigol i ymestyn profiadau dysgu’r plant yn ystod eu chwarae rhydd. Maent i gyd yn adnabod anghenion unigol bob plentyn ac yn eu harsylwi’n fedrus gan gynnwys gwrando’n feddylgar ar eu syniadau a’u gofynion. Maent wrth law i gynnig cefnogaeth pan fo angen, er enghraifft wrth esbonio llun, gair, neu awgrymu defnyddio adnoddau eraill. Maent yn gweithio’n barhaus i ymestyn profiadau amrywiol y plant ac yn defnyddio dull sy’n canolbwyntio ar lyfrau lle mae’r plant yn cael amser i ymgolli eu hunain yng nghymeriadau a negeseuon y storïau. Mae ymarferwyr yn cadw cofnod trylwyr o broses dysgu’r plant ar fwrdd ‘Eiliadau Cofiadwy’ sydd yn dathlu darluniau a dywediadau digymell y plant.

### Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol

Mae’r ymarferwyr yn meithrin perthynas glòs a gofalgar â’r plant, gan greu awyrgylch cartrefol a theuluol yn y lleoliad. Mae eu hangerdd tuag at eu gwaith yn amlwg, ac mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o ddatblygiad plant ac anghenion unigol. Maent yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy’n ymateb yn llwyddiannus iawn i ddiddordebau’r plant, gan gynllunio profiadau chwarae a dysgu sy’n datblygu pob agwedd ar eu medrau. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth arbennig o sut mae'r plant yn dysgu drwy chwarae ac archwilio.

Maent yn gwneud defnydd rhagorol o’r ardaloedd dysgu tu mewn a thu allan er mwyn cynnig amrywiaeth arbennig o brofiadau dysgu ar gyfer y plant.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd ymestynnol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant yn effeithiol iawn. Maent yn hyrwyddo cynllunio ymatebol yn grefftus gan annog y plant i fod yn chwilfrydig. Mae ymarferwyr yn ysgogi’r plant i ddatblygu sgiliau rhifedd effeithiol drwy amrywiaeth o gyfleoedd pwrpasol, megis cyfri’r nifer o bigau ar y draenog yn y toes. Maent yn hyrwyddo sgiliau datrys problem a chyfathrebu'r plant yn dda, gan annog y plant i holi ac ateb cwestiynau a thrwy gynnig sylwadau sy'n cefnogi’r plant i feddwl am yr hyn y maent yn ei wneud. Er enghraifft, maent yn holi’r plant ar sut i dynnu’r dail a’r mes o’r talpau iâ.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn fentrus ac yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus trwy gynllunio profiadau buddiol. Mae ystod o brofiadau dysgu a chwarae ymestynnol tu fewn a thu allan yn cael effaith cadarnhaol ar ddatblygiad y plant. Mae ymarferwyr yn chwarae ochr yn ochr â'r plant yn fedrus gan gefnogi'r dysgu'n llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn ailadrodd geirfa wrth ddarllen llyfr lluniau â sain, ac yn annog y plant i ail adrodd ac efelychu'r iaith.  Maent yn cynllunio'n effeithiol iawn er mwyn datblygu annibyniaeth y plant, gan gynnwys cynnig cyfleoedd iddynt ehangu ar yr adnoddau maent yn eu defnyddio'n annibynnol yn yr ardal greadigol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol y plant yn gadarn iawn. Mae'r amgylchedd yn gynhwysfawr ac yn meithrin ymdeimlad o berthyn, gyda llyfrau ac arddangosfeydd yn arddangos gwaith y plant. Mae'r plant yn datblygu sgiliau cymdeithasol cadarn trwy ddysgu am bwysigrwydd parch a charedigrwydd. Mae'r ymarferwyr yn fodelau rôl hynod effeithiol ar eu cyfer.

Mae dulliau addysgu hynod effeithiol ymarferwyr yn llwyddo i ysgogi'r plant i ddatblygu ystod eang o fedrau'n gadarn. Maent yn cynnal arsylwadau gwerthfawr yn gyson gan ganolbwyntio ar gynnydd plant, ac mae systemau cofnodi'r arsylwadau yn fanwl a thrwyadl. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn cynllunio'n fedrus mewn modd sy'n ymateb i anghenion y plant ac yn symud y dysgu ymlaen. Mae'r ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth am y plant gyda'i gilydd yn llwyddiannus gan addasu'r ddarpariaeth yn ôl yr angen. Maent yn adfyfyrio'n hynod effeithiol er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn ateb gofynion y plant bob amser.

## Yr amgylchedd:  Rhagorol

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd diogel a glân. Mae prosesau cadarn yn eu lle er mwyn sicrhau nad oes unrhyw un yn medru cael mynediad i'r safle. Mae cofnodion cynnal a chadw'r lleoliad yn drefnus a chyfredol ac mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferion tân yn digwydd yn rheolaidd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod offer diogelu'r amgylchedd yn cael eu gwasanaethu yn rheolaidd, er enghraifft, yr offer dân a thrydanol. Maent yn cynnal asesiadau risg effeithiol a phwrpasol, sy'n cael eu hadolygu'n effeithiol. Mae arweinwyr yn cadw cofrestrau plant ac ymarferwyr manwl, ac yn sicrhau bod cymarebau ymarferwyr i blant yn gywir ar bob adeg. O ganlyniad i'r trefniadau hyn, mae arweinwyr rheolaeth effeithiol dros unrhyw beryglon ac yn lleihau unrhyw risgiau i blant.

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd o'r ansawdd uchaf, sydd wedi'i gynllunio'n bwrpasol ac yn groesawgar a chynnes i bob oedran. Maent yn darparu cyfleusterau gwych sy'n hwyluso profiadau'r plant, megis uned toiledau addas ac ardaloedd newid cewynnau preifat a phwrpasol. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o'r lleoliad a chyfleusterau'r safle megis derbynfa agored ar gyfer cotiau a bagiau'r plant, cegin eithriadol ar gyfer paratoi bwydydd, a drysau i'r ardal allanol sy'n caniatáu chwarae llif barhaus a diogel i blant. Ym

mhob uned, mae arweinwyr yn cynnig amgylchedd ardderchog lle mae celfi bach ac unedau o adnoddau yn hybu annibyniaeth y plant. Mae arweinwyr hefyd yn sicrhau amgylchedd caeedig a diogel tu allan, sy'n cynnig profiadau ac anturiaethau hynod gyffrous. Er enghraifft, mae ardaloedd cysgodol, arwynebau meddal a gwair ffug sy'n cynnig heriau a chyfleoedd sylweddol i blant i gymryd risg, i ddarganfod, a meithrin sgiliau corfforol a chreadigol. Mae arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd i ddatblygu chwilfrydedd. Er enghraifft, tu allan mae gan blant fynediad i cegin fwd, ardaloedd cymdeithasol, adeiladu, ynghyd ag ardal blannu a man i greu cerddoriaeth. Tu fewn, mae arweinwyr yn cynnig profiadau dysgu cyffrous megis ardaloedd chwarae rôl, ardal fathemateg ac ardal gelf a marcio. Maent yn sicrhau cydbwysedd da rhwng hyrwyddo diogelwch y plant a'u cefnogi i fentro. Er enghraifft, maent yn cael y cyfle i blannu berwr, gofalu am bysgodyn a mwynhau storïau yn y cwtsh allanol beth bynnag fo'r tywydd.

Mae arweinwyr yn cynnig adnoddau helaeth o'r safon uchaf fel bod y plant yn cael profiadau rhagorol o syndod a rhyfeddod. Maent yn eu cyflwyno ar lefelau isel, gyda pharch a dychymyg creadigol, sydd yn gwahodd y plant i ddarganfod a dilyn eu diddordebau. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd di-ri i brofi gweithgareddau arloesol megis glŵp a phowdr siocled, ac i ddefnyddio eu dychymyg drwy arbrofi gyda rhannau rhydd ac offer go iawn. Yn yr ardal chwarae rôl, mae plant wrth eu bodd yn bwydo dolis gyda photeli babis go iawn, ac yn yr ardal allanol mae bocsys darganfod yn cynnwys adnoddau naturiol fel cerrig, gwellt a dail. Maent yn annog datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn wych, trwy gynnig profiadau gwerthfawr iddynt yn eu cymuned, am amrywiaeth, ac am y byd amlddiwylliannol. Er enghraifft, maent yn cynhyrchu llyfrau am eu profiadau, megis pan gafwyd ci yn ymweld â'r lleoliad, yn ogystal ag ymweliadau yn y gymuned lleol. Mae'r llyfrau hyn yn drysorau arbennig ac yn cyfoethogi bywydau'r plant a'u teuluoedd yn fawr.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n angerddol ar sicrhau fod y ddarpariaeth yn cynnal y safonau uchaf. Maent yn cynnal gweithdrefnau trwyadl yn rhagorol wrth reoli'r lleoliad ac yn canolbwyntio'n arbennig ar ddatblygu'r ddarpariaeth ac ar ddeilliannau'r plant. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain ac ar gyfer yr holl dîm. Maent yn canolbwyntio'n barhaus ar gefnogi a herio pawb i wneud eu gorau. Trwy gynllunio a rheolaeth staff eithriadol, maent yn sicrhau bod gweledigaeth y lleoliad yn cael ei wireddu'n llwyddiannus.

Mae arweinwyr yn cynnal lles a hyder ymarferwyr yn hynod llwyddiannus drwy gynnal cyfarfodydd goruchwyliaeth yn rheolaidd. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn ymfalchïo ym mhob agwedd o fywyd y lleoliad. Mae trefniadau dyddiol yn cael eu cynnal yn hynod effeithiol, gydag ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'u rolau. Er enghraifft,

mae arweinwyr yn cynnwys ymarferwyr yn y broses o gynllunio profiadau dysgu a chwarae ar gyfer y plant trwy gynnal cyfarfodydd adran a chadw nodiadau mewn llyfrau cofnodion.

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu’r materion y maent yn dymuno’u gwella ac yn gweithredu arnynt yn gyflym ac effeithiol. Maent yn creu cysylltiadau ardderchog gydag ystod o bartneriaid i wella iechyd, dysgu a lles plant. Maent yn mynd i’r afael â phryderon yn effeithiol, gan gyfeirio’n bwrpasol at yr asiantaethau cywir er mwyn cynorthwyo unigolion.

Mae arweinwyr yn creu cysylltiadau hynod effeithiol gyda’r gymuned ehangach er mwyn meithrin ymdeimlad cryf o gynefin a pherthyn yn y plant. Er enghraifft, maent yn ymweld a’r ysgolion cynradd ac uwchradd a chartref henoed lleol, ac yn croesawu ymwelwyr megis yr heddlu yn gyson.

Mae arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel, cadarn ac amserol ac mae’r gwiriadau addasrwydd yn cael eu cwblhau’n briodol. Mae'r broses rheoli perfformiad wedi’i sefydlu’n gadarn. Mae’r ddogfen hunan arfarnu a’r cynllun datblygu’n hynod fanwl, sy’n adlewyrchu barn ac adborth rhieni, ac yn cael eu defnyddio’n feistrolgar i fyfyrio ar gynnydd y plant a chryfderau’r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae gan y lleoliad ddealltwriaeth gadarn o’u cryfderau a meysydd ar gyfer datblygu o ran addysg a gofal y plant.

Mae’r defnydd o’r gyllideb a grantiau yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau’r lleoliad yn effeithiol. Mae arweinwyr yn dyrannu adnoddau’n ddoeth ac yn cyllido cyfarpar defnyddiol, yn unol â’r targedau gwella cyfredol. O ganlyniad, mae’r ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd ystyrlon â chyd-destun go iawn i blant ddatblygu eu gwybodaeth a’u medrau.

Mae gan yr arweinwyr a’r ymarferwyr berthynas arbennig â rhieni a gofalwyr. Maent yn cyfathrebu’n effeithiol iawn â nhw er mwyn medru gweithio i wella lles a dysgu’r plant o ddydd i ddydd. Gwneir defnydd o apiau a chyfryngau cymdeithasol mewn modd meistrolgar i rannu gwybodaeth am weithgareddau dyddiol a digwyddiadau achlysurol, yn ogystal a chyfathrebu gwybodaeth unigol plant yn hynod effeithiol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/12/2025